



Diolch i chwaraewyr
y Loteri Genedlaethol
Thanks to National
Lottery players

CALON
TAF



calontaf.co.uk  
CalonTaf@rctcbc.gov.uk

Ydych chi'n barod i ddod yn Dditectif Adar?

Are you ready to become a Bird Detective?



**Mae cymaint o adar yn barod i chwarae cuddio
gyda chi o amgylch Parc Coffa Ynysangharad!**

Rydyn ni wedi dewis yr adar sy'n ymweld â'r parc fwyaf aml yr ydyn ni'n meddwl
y byddwch chi'n fwyaf tebygol o'u gweld! Tybed a fyddwch chi'n gweld
pob un o'r 15 o adar hyn o amgylch y parc?

Ticiwch nhw oddi ar y rhestr, a chofiwch roi gwybod sut hwyl rydych chi'n
ei chael. **Bant â ni!**

**There's are so many birds ready to play hide and seek
with you around Ynysangharad War Memorial Park!**

We've chosen the park's most frequent flyers that we think you're most
likely to spot. See if you can spot all 15 of these birds around the park.

Check them off the list and let us know how you get on. **Let's go!**

Cafodd
y rhestr ei rhoi at
ei gilydd yn ofalus gan
ein gwirfoddolwr anhygoel
a ffrind i'r parc.

**Diolch
Martin Phillips!**

Our amazing volunteer and
friend of the park, who
carefully put together
this list.

Parc Coffa
YNYSANGHARAD
War Memorial Park
Pontypridd CF37 4PE



Trawsnewid Trefi
Transforming Towns



Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg | You are welcome to communicate with us in Welsh



DRYW

Efallai mai aderyn bach yw hwn, ond mae ei lais yn ENFAWR! Fyddai dim angen meicroffon arno i ganu yn safle'r seindorf!

Chwiliwch am yr aderyn bach crwn yma gyda'i gynffon syth mewn canghennau isel neu lwyni.



WREN

This tiny bird might be small, but its voice is HUGE! It won't need a microphone if it sang on the Bandstand!

Look for this little round bird with its perky, upright tail in low branches or bushes.

ROBIN GOCH

Mae'r aderyn siriol, coch ei fron yn hawdd i'w weld, yn enwedig yn y gaeaf. Mae Robiniaid Cochion wrth eu bodd yn dod yn agos, fel pe baen nhw'n chwilfrydig am yr hyn rydych chi'n ei wneud!

Cadwch lygad amdany'n nhw fyny fry - mae Robiniaid Cochion yn diriogaethol, felly os ydych chi'n gweld un mewn un lleoliad, mae'n debygol y bydd yn aros o gwmpas y tro nesaf y byddwch chi'n ymweld!



ROBIN

This cheerful, red-breasted bird is easy to spot, especially in winter. Robins love to come up close, as if they're curious about what you're up to!

Keep an eye for them up high - Robins are territorial, so if you spot one in one location, they'll likely stick around next time you visit!

JAC-Y-DO

Cefnder llai i'r frân, gyda phlu du sgleiniog a llygaid llachar.

Cadwch lygaid amdany'n nhw'n treulio amser mewn grwpiau, yn aml yn gwneud llawer o sŵn!



JACKDAW

A smaller cousin of the crow, with shiny black feathers and bright eyes

Look for them hanging out in groups, often making lots of noise!



BRONFRAITH

Aderyn brown gyda smotiau ar ei fola a chariad at ganu.

Byddwch chi'n ei glywed yn aml yn ailadrodd yr un nodau drosodd a throsodd - fel petai'n ymarfer ar gyfer Eisteddfod!



SONG THRUSH

A brown bird with spots on its belly and a love for singing.

You'll often hear it repeating the same notes over and over—like it's practicing for an Eisteddfod!

MWYALCHEN

Mae'r fwyalchen wryw yn hollol ddu gyda phig melyn llachar.

Mae'r benywod yn frown ac yn frith.

Efallai eu bod nhw'n edrych braid yn llwyd, ond maen nhw'n llawer mwy lliwgar wrth i chi edrych yn agosach!



BLACKBIRD

The male blackbird is all black with a bright yellow beak. The females are brown and streaky.

They are often seen rustling about in search of worms for their dinner! Their song sounds like you're listening to someone playing the flute.





TITW MAWR

Bola melyn llachar, pen du sgleiniog, a chri uchel.

Yr aderyn yma yw un o drigolion mwyaf swnllyd y parc - edrychwch i fyny, a gwrandewch arnyn nhw'n galw o bennau'r coed!



GREAT TIT

A bright yellow belly, a shiny black head, and a loud call.

This bird is one of the park's loudest residents— look up, and listen for them calling from the treetops!

ANGRYMIADAU DA  **BIRD WATCHING TIPS**
Yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y prynhawn yw'r amseroedd gorau ar gyfer gwyllo adar.

Early morning or late afternoon best.

TITW TOMOS LAS

Adar bach a lliwgar gyda phlu glas a melyn, mae'r acrobatiaid bach hyn wrth eu boddau ar ganghennau.

Maen nhw'n llawn egni, ac yn aml i'w gweld yn hongian wyneb i waered o ganghennau!



BLUE TIT

Small and colourful with blue and yellow feathers, these little acrobats love to hop around branches.

They're full of energy, and can often be seen hanging upside down from branches!!

ANGRYMIADAU DA  **BIRD WATCHING TIPS**
Ewch i wahanol rannau o'r parc i weld amrywiaeth o adar.
Visit different areas of the park to see a variety of birds.

COLOMEN Y DREF

Mae'r adar cyfeillgar yma ym mhobman! Byddwch chi'n eu gweld yn cerdded o gwmpas ar y llwybrau neu'n hedfan uwchben.

Efallai eu bod nhw'n edrych braidd yn llwyd, ond maen nhw'n llawer mwy lliwgar wrth i chi edrych yn agosach!



TOWN PIGEONS

These friendly birds are everywhere! You'll see them waddling around on the paths or flying overhead.

They may seem rather grey, but they're a lot more colourful once you look up close!

ANGRYMIADAU DA  **BIRD WATCHING TIPS**
Cymerwch nodiadau neu luniau o'r adar rydych chi'n eu gweld.
Take notes or pictures of the birds you see.

YSGUTHAN

Mae ysguthanod yn fwy na'u cefndryd, colomennod y dref. Mae gan yr adar hyn ddarn gwyn ar eu gwddf ac maen nhw'n gwneud sŵn "cŵ" tyner.

Chwiliwch amdany'n nhw yn y glaswellt, lle maen nhw'n hoffi pigo am fwyd.



WOOD PIGEONS

Bigger than their town pigeon cousins, these birds have a white patch on their neck and a soft "coo."

Look for them in the grass, where they like to peck for food.

HWYADEN WYLLT

Mae gan y gwryw ben gwyrdd sgleiniog, tra bod y fenyw yn frown.

Fe welwch chi nhw'n padlo o gwmpas yn y dŵr neu'n honcian cerdded ger yr Afon Taf. Tra bod adar eraill yn gwneud synau hardd, mae Hwyaid Gwyllt yn dweud "Cwac!"



MALLARDS

The male has a shiny green head, while the female is brown.

ou'll see them paddling about in the water or waddling near the River Taf. Whilst other birds make beautiful sounds, Mallards just go "Quack!"



TURTUR DORCHOG

Mae gan yr adar golau, gosgeiddig hyn "goler" ddu o amgylch eu gwddf.

Gwrandewch am sŵn cŵ tyner yr aderyn smart yma - mae'n ymlaciol iawn!

Pob hwyl i chi wrth wyluo adar!

Os oes gyda chi unrhyw luniau hyfryd yr hoffech chi eu rhannu gyda ni, anfonwch e-bost neu eu rhannu gyda ni ar y Cyfryngau Cymdeithasol.

CalonTaf@
rctcbc.gov.uk



COLLARED DOVE

These pale, graceful birds have a black "collar" around their neck. Listen for this smartly dressed bird's gentle cooing sound—it's very relaxing!

SIGLEN FRAITH

Du, gwyn, a bob amser yn ysgwyd ei gynffon hir!

Mae'r aderyn yma wrth ei fodd yn gwibio o gwmpas mannau agored a byddwch chi'n ei weld yn ysgwyd ei gynffon yn barhaus wrth iddo fynd.



PIED WAGTAIL

Black, white, and always wagging its long tail!

This bird loves to zip around open spaces and you'll see it constantly wagging its tail as it goes.

SIGLEN LWYD

Mae'n edrych fel siglen fraith y mae rhywun wedi ei beintio'n felyn!

Maen nhw i'w gweld yn aml ger dŵr, yn ysgwyd eu cynffonau i fyny ac i lawr.



GREY WAGTAIL

Like a pied wagtail that someone's painted yellow!

They're often found near water, wagging their tails up and down.

BRONWEN Y DŴR

Pleser braf i'w weld!

Aderyn crwn, tywyll gyda brest wen yw bronwen y dŵr, sydd yn aml i'w weld yn arnofio'n hamddenol ar yr Afon Taf. Mae'n wych am blymio o dan y dŵr.



DIPPER


A real treat to spot!

The dipper is a round, dark bird with a white chest, often seen bobbing along the river Taf without a care in the world. It's great at diving underwater.

CRËYR GLAS

Os ydych chi'n lwcus iawn, efallai byddwch chi'n gweld crëyr (glas) yn yr afon! Mae'r aderyn prydferth yma'n bysgotwr o fri, yn barod i ddal pysgod yn afonydd y parc.

Gyda'i goesau a gwddf hir, mae'r crëyr yn sefyll yn stond ar bwys y dŵr yn barod i ddal pysgod. Mae plu llwydaidd y crëyr yn ei wneud yn guddliw, felly rhaid cael llygaid barcud i'w weld! Os ydych chi'n amyneddgar, mae'n bosib fe welwch chi'r crëyr yn hedfan i ffwrdd. Mae gweld crëyr yn hedfan â'i adenydd mawr yn wledd i'r llygaid!



GREY HERON

If you're very lucky- you may spot a Heron in the river. This elegant bird is the park's very own fisherman!

With its long legs and neck, the heron stands perfectly still by the water, waiting to catch fish. Its grey feathers blend in well with the surroundings, so you'll need to be sharp-eyed to spot it! If you're patient, you may even see it take off in flight. The Heron's large wingspan is a sight worth seeing!

Have fun bird watching!
If you have any wonderful photographs you'd like to share with us, either email or tag us on Social Media.
CalonTaf@
rctcbc.gov.uk

